=

# RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL
# CYNGOR BWRDEIS TREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Bydd cyfarfod rhithwir o'r **Bwrdd Rhianta Corfforaethol** yn cael ei gynnal ar

**14 Mawrth 2022 am 10.00 am**

**Cysylltwch â:** Yula Kampouropoulou - Uned Busnes y Cyngor, Gwasanaethau Democrataidd ( 07747 485569)

## MATERION I'W TRAFOD

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â'r Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a

2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2022 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 3 - 10)**

**3. ADRODDIAD CHWARTEROL FFORWM RHCT**

Derbyn adroddiad gan Voices From Care Cymru sy'n rhoi trosolwg i Bwyllgor y Bwrdd Rhianta Corfforaethol o'r gwaith sy'n cael ei wneud i baratoi ar gyfer Diwrnod Gofal 22 ac addasu dulliau i gwrdd â phobl ifainc lle bynnag y maen nhw.

**(Tudalennau 11 - 16)**

**4. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNHALWYR IFAINC 2021-22**

Derbyn Adroddiad Blynyddol Cynhalwyr Ifainc 2021/2022.

**(Tudalennau 17 - 30)**

**5. TRAFOD CADARNHAU'R PENDERFYNIAD ISOD:-**

"Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

**6. ADRODDIADAU RHEOLIAD 73**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig.

**(Tudalennau 31 - 76)**

**7. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

**<u>Cylchrediad:</u>**

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol:**
Y Cynghorydd C Leyshon (Cadeirydd)
Y Cynghorydd G Caple (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd E Griffiths
Y Cynghorydd L Hooper
Y Cynghorydd S Rees
Y Cynghorydd S. Rees-Owen

**Officers:**

Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Ceri Jones, Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant
Annabel Lloyd, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant
Paul Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Cara Miles, Cyfreithiwr Gofal Plant
Jayne Thomas, Rheolwr Gwella'r Gwasanaeth, Ymgysylltu a Chwynion

Tros Gynnal Plant Cymru

**BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar-lein ddydd Llun, 31 Ionawr 2022 am 10.00am

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol a oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd C. Leyshon (Cadeirydd)
Y Cynghorydd G. Caple (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd S. Rees-Owen
Y Cynghorydd E. Griffiths
Y Cynghorydd J. Bonetto
Y Cynghorydd S. Rees

**Dyma'r Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms A Lloyd, Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau i Blant
Ms S. Edwards, Rheolwr Gwasanaeth
Mr A Cope, Rheolwr Datblygu Rhanbarthol – Gwasanaethau Maethu
Ms M Davies, Tros Gynnal Plant Cymru
Ms J Thomas, Rheolwr Cwynion a Sicrhau Ansawdd – Gwasanaethau Cymdeithasol
Ms C Jones, Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant
Ms C Miles, Cyfreithiwr Gofal Plant

**Eraill oedd yn bresennol**

Annabel Galt, VfCC/Fforwm Glasbrint – Swyddog Datblygu
Tracy Grenter – Arloeswr Gofal Maeth
A W - Cynrychiolydd Pobl Ifainc

**43 DATGAN BUDDIANT**

Cafodd buddiant ei ddatgan gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees mewn perthynas ag eitem 3 yr agenda gan ei bod yn gynrychiolydd RhCT fel Aelod o'r Panel Mabwysiadu.

**44 CROESO**

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i groesawu Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Caple i'r Pwyllgor, a Swyddogion o Voices from Care Cymru i'r cyfarfod gyda chroeso arbennig i'r cynrychiolydd pobl ifainc.

**45 YMDDIHEURIADAU**

Cafodd ymddiheuriadau am absenoldeb eu derbyn oddi wrth Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Hooper a Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant.

**46 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2021.

**47 VOICES FROM CARE CYMRU (VFCC) – DIWEDDARIAD GAN Y CYNRYCHIOLYDD POBL IFAINC**

Cyflwynodd y Swyddog Datblygu y cynrychiolydd pobl ifainc (AW) i'r Pwyllgor; rhoddodd AW y diweddaraf i Aelodau'r Pwyllgor am ei gweithgareddau diweddar yn ystod y 3 mis diwethaf. Tynnodd sylw at ennill gwobr, sef Cyflawnwr Ifanc y Flwyddyn, trwy raglen Gofal i Waith. Pwysleisiodd arwyddocâd Gofal i Waith a charfan Gwasanaethau Cymdeithasol RhCT a roddodd gymorth iddi i geisio llety parhaol a rheoli biliau. Rhoddodd AW wybod i Aelodau am y cymorth parhaus a roddwyd gan Voices from Care Cymru i bobl ifainc drwy gydol y pandemig, er enghraifft trefnu achlysuron ar Zoom, galwadau ffôn a galwadau fideo i gadw mewn cysylltiad.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i longyfarch AW ar ei gwobr ac roedd yn falch o weld yr holl gynnydd y mae wedi'i wneud yn ei bywyd personol.

Rhoddodd y Swyddog Datblygu wybod i Aelodau am achlysuron diweddar a gafodd eu canslo o ganlyniad i'r pandemig. Serch hynny, roedd modd i sefydliad VfCC addasu ei wasanaethau trwy gynnal gweithgareddau yn yr awyr agored, achlysuron ar-lein a chymorth un i un. Wrth i gyfyngiadau gael eu llacio, rhoddodd y Swyddog Datblygu o VfCC wybod i Aelodau am brosiectau sydd i'w cynnal yn y dyfodol i ddenu grwpiau ehangach o bobl ifainc yn RhCT. Nododd y Swyddog waith ar y cyd â Chyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant i sefydlu gweithdy ar gyfer y Siarter Arfer Gorau i rieni sydd wedi derbyn gofal.

Roedd y Cadeirydd yn hapus gyda'r diweddariad ar lafar ac aeth ati i gydnabod yr angen i ailddechrau cynnal gwasanaethau wyneb yn wyneb i ymgysylltu â phobl ifainc yn RhCT.

Yn dilyn y diweddariad ar lafar, **PENDERFYNWYD**:

- Nodi'r diweddariad a gafodd ei roi i'r Bwrdd

**48 ADRODDIAD BLYNYDDOL MABWYSIADU RHANBARTHOL Y FRO, Y CYMOEDD, A CHAERDYDD 2020/21**

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Blant drosolwg cryno o Adroddiad Blynyddol Mabwysiadu Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd, a Chaerdydd. Rhoddwyd gwybod i Aelodau'r Pwyllgor fod y Pwyllgor Craffu eisoes wedi trafod yr adroddiad ym mis Rhagfyr 2021; cafwyd sylwadau calonogol am yr adroddiad.

Nododd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Blant mai dyma'r 6$^{ed}$ Adroddiad Blynyddol y Cydwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol a gafodd ei sefydlu yn seiliedig ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Yn yr adroddiad mae manylion am adrodd ar gyflawniad mewn perthynas â materion megis recriwtio mabwysiadwyr, gwneud penderfyniadau er mwyn i blant gael eu mabwysiadu, chwilio am deuluoedd a chymorth ar ôl mabwysiadu.

Cafodd Aelodau wybod am y gostyngiad bach yn y galw yn ystod cyfnod cyntaf y pandemig. Serch hynny, mae'r galw wedi dechrau cynyddu.
Yn yr adroddiad tynnwyd sylw at y 26 gorchymyn lleoliad. Serch hynny, pan ymchwiliwyd i gyflawniad y Gwasanaethau i Blant ddiwethaf, roedd 33 gorchymyn mabwysiadu wedi cael eu gwneud yn ystod 2020/21. Yn ystod cyfnod adrodd 2020/21, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant y bydd 22 o blant yn cael eu mabwysiadu erbyn 31 Mawrth 2021.

Rhoddwyd gwybod i Aelodau i nodi effeithiolrwydd yr ymgyrch recriwtio a chynnydd yn nifer y mabwysiadwyr sydd wedi creu effaith gadarnhaol o ran nifer is o fabwysiadau nad ydyn nhw'n gysylltiedig ag asiantaeth. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant wybod i Aelodau am y cynnydd yn nifer y ceisiadau am gymorth ar ôl mabwysiadu a nododd arwyddocâd rhoi cymorth i fabwysiadwyr. Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant yr angen am adnoddau ychwanegol i fabwysiadwyr gan fod y galw wedi cynyddu.

Roedd y Cadeirydd yn hapus gyda'r wybodaeth a ddarparwyd a gofynnodd i Aelodau am unrhyw gwestiynau.

Roedd un Aelod yn hapus gyda'r cyllid a ddarparwyd i gyflogi gweithiwr cymdeithasol rhan amser i gefnogi rhieni geni. Serch hynny, gofynnodd yr Aelod am y mecanweithiau atgyfeirio a'r math o gymorth y mae modd ei ddefnyddio i gefnogi rhieni geni.

Yn rhan o ddatblygiad gwasanaethau ychwanegol, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant wybod i Aelodau am gyflwyno gwasanaeth 'Llwybr Cyn Geni'. Y bwriad yw gwella'r cymorth sydd ar gael i atal plant a rhieni rhag cael eu gwahanu. Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant wasanaeth datblygu arbrofol newydd, sef Eiriolaeth Rhieni. Bydd hyn yn cynnwys cymorth i rieni i fynychu cyfarfodydd megis Cynadleddau Amddiffyn Plant. Nodwyd canlyniadau gwych gan Awdurdodau Lleol eraill sy'n rhoi'r gwasanaeth yma ar brawf gan fod rhieni wedi teimlo eu bod nhw'n cymryd rhan fwy yn y gwasanaethau cymorth a ddarperir.
O ran y mecanwaith atgyfeirio, nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant bwysigrwydd cwnsela i'r rhieni geni yn rhan o'r broses fabwysiadu. Felly, cyn i unigolyn sy'n gwneud penderfyniadau o'r asiantaeth ystyried mabwysiadu plentyn, mae'n sicrhau bod atgyfeiriadau wedi'u gwneud at wasanaeth cwnsela i rieni.

Croesawodd un Aelod roi eiriolaeth rhieni ar waith, gan gydnabod ei bod yn hanfodol o ran rhoi cyfle i rieni gymryd rhan a mynegi eu hunain. Gofynnodd yr Aelod am ragor o wybodaeth am ddyfodol y gwasanaethau ar fuddsoddiadau yn dilyn cynnydd yn y galw y flwyddyn ganlynol.

Cytunodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant â'r Aelod gan nodi'r angen am fuddsoddiad a chyllid pellach i symud gwasanaethau ychwanegol yn eu blaenau er mwyn diwallu'r galw. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant wybod i'r Pwyllgor am ddyddiad sydd wedi'i drefnu ar gyfer y mis canlynol i ymchwilio i sut mae modd i rieni sy'n mabwysiadu gael y cymorth cywir ar yr adeg gywir a sicrhau bod modd i rieni sy'n mabwysiadu fanteisio ar yr holl wasanaethau cymorth cynnar sydd ar gael iddyn nhw. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant lansiad y gwasanaeth cymorth amlasiantaeth sy'n wasanaeth therapiwtig i blant sydd wedi'u mabwysiadu a phlant sy'n derbyn gofal. Byddai gwybodaeth bellach yn cael ei rhoi i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol mewn cyfarfodydd yn y dyfodol i dynnu sylw at y cynlluniau gweithredu a'r cynnydd sydd wedi'i wneud gan y gwasanaeth.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

- Nodi cynnwys yr adroddiad

## 48 ADRODDIAD BLYNYDDOL ANSAWDD GOFAL Y GWASANAETH MAETHU

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaeth ei hun i'r Pwyllgor fel y person enwebedig at ddibenion AGC o ran maethu yn RhCT. Rhoddodd wybod i Aelodau'r Pwyllgor mai nod yr adroddiad yw rhoi trosolwg o ansawdd blynyddol gofal o ran y gwasanaeth maethu yn 2020/21.

Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaeth mai canolbwynt y gwasanaeth yn ystod 2020/21 oedd sicrhau bod rhieni maeth yn cael y cymorth gorau posibl. O ganlyniad i ddefnyddio technoleg, cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaeth fod modd cynnal cysylltiad cyson â rhieni maeth, er enghraifft dros y ffôn neu drwy alwadau fideo. Hefyd, cafodd y gwasanaeth ei addasu er mwyn cynnal cyfarfodydd ar-lein, megis y Panel Maethu.

Yn ogystal â chymorth cyson parhaus i rieni maeth, rhoddodd Rheolwr y Gwasanaeth wybod i Aelodau am wasanaeth newydd a gafodd ei gyflwyno sy'n cynnwys ymgynghori â chynhalwyr sy'n berthynas a chynhalwyr prif ffrwd. Pwrpas yr ymgynghoriadau oedd nodi gwelliannau y byddai modd eu gwneud o ran mynychu cyfarfodydd y panel, prosesau'r panel, arfarniadau ar gyfer Aelodau'r panel, ac aildrefnu dyddiadau cyfarfodydd y panel i annog gweithwyr cymdeithasol i fynychu. Aeth Rheolwr y Gwasanaeth ati i gydnabod yr angen i weithio'n agos gyda rhieni ac o ganlyniad i ymgynghori â rhieni ar blant sy'n derbyn gofal maeth, mae hyn wedi cael ei roi ar waith. Mae'r garfan wrthi'n gweithio gyda gwasanaeth y Swyddogion Adolygu Annibynnol i lunio adroddiadau i rieni er mwyn rhoi cyfle iddyn nhw fynegi eu barn ar y gofal maeth a dderbyniwyd.

Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaeth waith ar y cyd â Rhwydwaith Maethu yn rhan o raglen les. Rhoddwyd gwybod i Aelodau am lwyddiant y rhaglen les o ran cyflwyno Arloeswyr. Nodwyd arwyddocâd Arloeswyr o ran cefnogi rhieni maeth newydd yn RhCT. Cafwyd gwybod am yr heriau y mae'r gwasanaeth yn eu hwynebu megis recriwtio rhieni maeth ychwanegol sy'n barod i weithio gyda phobl ifainc sydd ag anghenion cymhleth, a phobl ifainc yn eu harddegau hŷn.

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaeth Ms Grenter i'r Pwyllgor a roddodd drosolwg o rôl a phrofiadau Arloeswr yn RhCT. Nododd yr Arloeswr fanylion y gweithgareddau amrywiol sy'n cael eu cynnal yn rhan o'r rôl. Roedd y rhain yn cynnwys gweithio ar y cyd â Maethu Cymru mewn perthynas â lansiad 22 Drws Maethu, mynd i Baneli Cyflogaeth a thrafod effeithiolrwydd polisïau. Rhoddodd yr Arloeswr wybod am arwyddocâd y rôl o ran creu systemau cymorth i rieni maeth ac amgylchedd lle mae cyfathrebu agored yn cael ei annog er mwyn trafod yr heriau a datrysiadau. Siaradodd yr Arloeswr am ddatblygiad y rôl, gyda chymorth yn cael ei roi i rieni maeth ar-lein o ganlyniad i'r pandemig. Serch hynny, roedd yr Arloeswr yn gobeithio ailddechrau cynnal y gwasanaeth wyneb yn wyneb wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio.

Roedd y Cadeirydd yn hapus gyda'r gwaith a'r cymorth a ddarperir i rieni maeth gan Arloeswyr. Aeth y Cadeirydd ati i gydnabod pwysigrwydd cyfathrebu rhwng rhieni maeth ac Arloeswyr er mwyn rhannu profiadau, cyngor a datrysiadau.

**PENDERFYNODD** y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:

- Cydnabod yr wybodaeth yn yr adroddiad.

**49 'DRWS BLAEN' MAETHU CWM TAF**

Rhoddodd Rheolwr Datblygu Rhanbarthol Gwasanaethau Maethu y diweddaraf am y ddau ddatblygiad sylweddol sydd wedi'u gwneud ers adrodd i'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Cadarnhawyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymuno â'r Drws Blaen Rhanbarthol er mwyn ehangu'n ymhellach ar y gwaith ar y cyd a rhannu adnoddau ac arfer da. Ar hyn o bryd, cadarnhaodd y Rheolwr Datblygu Rhanbarthol ymrwymiad y tri Awdurdod Lleol mewn perthynas â recriwtio rhieni maeth. Rhoddwyd gwybod i Aelodau am y datblygiad sylweddol arall o ran lansio Maethu Cymru, sef cydweithrediad cenedlaethol o bob un o'r 22 o Awdurdodau Lleol. Roedd y Rheolwr

Datblygu Rhanbarthol yn hapus gyda'r buddsoddiadau wedi'u darparu gan Lywodraeth Cymru.

Cafodd Aelodau wybod am y newidiadau a gafodd eu rhoi ar waith i wasanaethau megis brandio a gwefan newydd ar draws pob Awdurdod Lleol. Nodwyd arwyddocâd y gwefannau newydd ar draws pob Cyngor i hyrwyddo'r neges am Faethu Lleol ac i gynnal y datganiad cenhadaeth, sef 'Mae plant lleol wrth galon popeth rydyn ni'n ei wneud'.
Er gwaethaf llwyddiant y gwasanaeth, aeth Rheolwr Datblygu Rhanbarthol Gwasanaethau Maethu ati i gydnabod yr heriau o ran recriwtio rhieni maeth ledled y DU. Cafwyd gwybod am y gostyngiad o 50% yn nifer yr ymholiadau ac ymweliadau cychwynnol am rolau rhieni maeth. O ganlyniad i hyn, mae gwaith ymchwilio wedi cael ei gynnal i ddod o hyd i esboniad. Nodwyd mai'r rheswm dros y gostyngiad oedd arfer ar ôl y pandemig ac, ar lefel leol, pobl nad oedden nhw'n effro i'r brandio newydd. Er gwaethaf y gostyngiad yn nifer yr ymholiadau ac ymweliadau cychwynnol, roedd Rheolwr y Gwasanaeth Rhanbarthol – Gwasanaethau Maethu yn falch o weld cynnydd yn nifer y bobl sy'n mynd ymlaen at fuddsoddiad a chymeradwyaeth. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, nodwyd bod cynnydd i'w weld yn nifer y rhieni maeth bob blwyddyn. Rhoddodd Rheolwr Datblygu Rhanbarthol Gwasanaethau Maethu wybod i Aelodau am welliannau y mae angen eu gwneud o ran darpariaeth cadw rhieni maeth a sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn cadw at yr Ymrwymiad Cenedlaethol.

O ran y dyfodol, bydd cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith i hyrwyddo Maethu Cymru er mwyn denu'r genhedlaeth iau i ddod yn rhieni maeth. Mae ymgyrchoedd llwyddiannus wedi cael eu lansio, er enghraifft ar y radio, y teledu, Spotify ac ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn hyrwyddo Maethu Cymru. Ar lefel leol, siaradodd Rheolwr Datblygu Rhanbarthol Gwasanaethau Maethu am lansio ymgyrch sy'n hysbysebu Maethu Cymru ar fysiau ac ar y radio (Capital FM) ledled Cwm Taf.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i Reolwr Datblygu Rhanbarthol Gwasanaethau Maethu am ei adroddiad a'r gwaith sydd wedi'i gynnal yn rhan o'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol dros y tair blynedd. Dymunodd y Cadeirydd bob lwc iddo yn ei rôl newydd yng Nghyngor Caerdydd.

**50 ADRODDIAD CHWARTEROL TROS GYNNAL**

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad gan Ms Davies am y cynnydd sydd wedi'i wneud gan elusen Tros Gynnal Plant Cymru. Dechreuodd Ms Davies gan ganolbwyntio ar adran Cynnig Rhagweithiol yr adroddiad. Yn seiliedig ar y Cynnig Rhagweithiol yn Chwarter 3, manteisiodd 32 o bobl ifainc ar y gwasanaeth sy'n seiliedig ar faterion, a chafodd 12 o bobl ifainc eu hatgyfeirio at y Cynnig Rhagweithiol. Roedd dros hanner y bobl ifainc a fanteisiodd ar y gwasanaeth sy'n seiliedig ar faterion yn gwneud hynny am y tro cyntaf. Cafodd Aelodau wybod am y gostyngiadau mewn perthynas ag Eiriolaeth yn seiliedig ar Faterion (IBA) a'r Cynnig Rhagweithiol yn Chwarter 3 o'u cymharu â'r Chwarteri blaenorol (2). Yn ystod Chwarter 3, roedd 86 o bobl ifainc yn gymwys am y Cynnig Rhagweithiol ac allan o'r 86 yma, roedd 18 yn blant sy'n derbyn gofal. Cafodd yr Aelodau wybod am 2 berson ifanc a gafodd eu cynnwys ddwywaith gan eu bod nhw'n bodloni'r meini prawf o ran Amddiffyn Plant (CP) a Phlant sy'n Derbyn Gofal, felly nifer y bobl ifainc oedd 84.
Yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd gan Awdurdodau Lleol, gwrthododd 50 o blant a phobl ifainc gyfarfod y Cynnig Rhagweithiol pan gafodd ei awgrymu gan eu gweithwyr cymdeithasol. Serch hynny, derbyniodd 11 a chawson nhw eu hatgyfeirio. Gwrthododd 20 o bobl ifainc y Cynnig Rhagweithiol heb reswm a gwrthododd 30 o bobl ifainc y cynnig i gwrdd ag eiriolwr. Nododd 12 person ifanc fod gwell gyda nhw siarad ag aelod o'r teulu.

Tynnodd Ms Davies sylw'r Aelodau at y graffau yn yr adroddiad a roddodd grynodeb o feini prawf Atgyfeiriadau'r Cynnig Rhagweithiol, Eiriolaeth yn seiliedig ar Faterion a demograffeg defnyddwyr y gwasanaeth yn ystod Chwarter 3.

**PENDERFYNWYD:**

- Nodi cynnwys yr adroddiad
- Derbyn diweddariadau ar gynnydd TGP yn y dyfodol

**51 Eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**52 Gwasanaethau Cymdeithasol - Cwynion a Chanmoliaethau Chwarterol**

Rhoddodd yr adroddiad yma drosolwg i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol o'r trefnau gweithredu ac effeithiolrwydd gweithdrefn cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol rhwng **1 Hydref 2021 a 31 Rhagfyr 2021.**

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am nifer y cwynion a ddaeth i law, natur y cwynion, ac unrhyw wersi a ddysgwyd, yn ogystal â manylu ar ymholiadau gan Gynghorwyr, Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol a nifer y cwynion a ddaeth i law.

Yn dilyn trafodaethau mewn perthynas â'r eitem eithriedig, **PENDERFYNWYD:**

- Nodi cynnwys yr adroddiad a'r gwaith sydd wedi ei gyflawni gan yr Uned Gwynion.

**53 DERBYN DIWEDDARIAD GAN Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU I BLANT.**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant ddiweddariad ar lafar ar y tri phrif weithgaredd sydd wedi digwydd hyd yn hyn. Cafodd Aelodau wybod am gymeradwyaeth y Cabinet o'r strategaeth atal ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

Yn ail, canmolodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant y gwaith a gafodd ei gynnal gan Ms Ceri Jones – Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant a Ceri Webster – Dirprwy Flaen Swyddog – Seicolegydd Addysg o ran arwain proses penodi Pennaeth Plant sy'n Derbyn Gofal. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant wybod i Aelodau am arwyddocâd y Pennaeth o ran trawsnewid Addysg i Blant sy'n Derbyn Gofal. Yn olaf, siaradodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant am brosiect ymchwil diweddar a gafodd ei gynnal gan CASCADE a nododd angen sylweddol am gymorth ystyrlon ar gyfer pobl ifainc sy'n dod yn rhieni. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant wybod i Aelodau am weithdy sydd i'w gynnal ar ôl yr etholiad. Bydd y Bwrdd yn cael gwahoddiad i'r gweithdy lle y bydd darganfyddiadau'r ymchwil yn cael eu cyflwyno.

Roedd y Cadeirydd yn hapus iawn gyda'r diweddariad ac edrychodd ymlaen at fynd i'r gweithdy i ddysgu rhagor am yr ymchwil.

**PENDERFYNODD** y Bwrdd Rhianta Corfforaethol:

- Derbyn adroddiad ar y Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal.

| | |
|---|---|
| **Daeth y cyfarfod i ben am 11.11am** | **Y Cynghorydd C Leyshon<br>Cadeirydd.** |

tudalen wag

**RCT Forum Quarterly Report**

| **Introduction:** | | | |
|---|---|---|---|
| Name of Project: | RCT Local Group | Funder: | RCT Local Authority |
| Team Member: | Francesca Pritchard and Annabel Galt | Project Timeframe: | Dec 2021 - Feb 2022 |

| **Project Summary:** | |
|---|---|
| **Young People connected with** | During the last quarter, the project has continued to engage with nine (9) care experienced young people throughout the RCT area. Of those young people engaged in the sessions - three (3) were aged 16 – 21-year-old and six (6) were aged 21+ year olds.<br>Throughout this time, a total of five (5) consultations were held on a 1-2-1 basis – three (3) face-to-face and two (2) by phone. Through the 1-2-1 connections and engagement with young people; the Local Groups Officer has referred two (2) young people to VfCC internal services for additional support.<br>A total of five (5) group sessions were held, focussing on good practice support for care experienced parents, care day and outreach activities. |
| **Projects Themes** | The RCT forum's sessions principal areas of focus have been as follows.<br><br>**Engagement into the group:**<br>During the quarter engagement has been encouraged through promotion on social media, to maintaining connections with regular contact and information sharing directly to current members of the group and professionals within the local authority. The focus of engagement has been to bring the members together as a group to seek innovative approaches to engage with younger children (14-16); through our collaboration with Actif Woods - with the next session set to take place in Easter is April 11th.<br><br>**Care Day 2022.**<br>A number of events and activities took place in the lead up to and on Care Day of this year; throughout this time, we supported care experienced young people within RCT to link in with care experienced young people from across the 5 nations (Wales, Scotland, Ireland, Northern Ireland, and England). Through the delivery of this young people provided us with feedback as to what they needed, as a care experienced child/young person to thrive. This feedback can be seen as below; |

| | |
|---|---|
| | 1. More counselling and Mental Health services.<br>2. Further emotional support (as the young people felt that there was not enough understanding of their feelings and trauma/behavioural responses.)<br>3. Wanting consistent and positive relationships, with Social Workers who could inform them of their rights.<br>4. Continued support post 25 from the local authorities through an outreach model (due to long term concerns regarding mental health, wellbeing, and isolation)<br>5. Continued support to manage longer term aspirations i.e. support in buying a car, insurance etc. |

| | | |
|---|---|---|
| | |  |

| | |
|---|---|
| | <br> |
| **Project Sucesses** | **Care experienced parents within RCT:**<br>We have supported local group members and other care experienced parents from the RCT area to contribute to several consultation opportunities throughout the last quarter. They have contributed to the Welsh Government's *'Childcare and Parental Employment Report - Minding the Future, the Childcare Barrier facing Working Parents';* supporting in the development of recommendations which can be found within the report. |



A copy of the report can be found as follows -
https://business.senedd.wales/documents/s122062/Report.pdf

Those individuals have also contributed to Children in Wales Period Dignity Consultation providing their views and experiences, regarding the impact of being looked after upon their access to information, advice, and support around women's health issues. This feedback will support the work being completed by Welsh Government around the "*Period Dignity Strategic Action Plan*".

Given the success of our engagement with care experienced parents, Voices will now be involved in further opportunities in the next quarter for care experienced parents within the RCT area. This includes plans to meet with care experienced parents and the local authority in relation to the "*Supporting Parents in and Leaving Care*" charter; previously co-produced between CASCADE and care experienced parents from VfCC.

| | |
|---|---|
| | **Basic Income Pilot.**<br>Throughout the last quarter Voices from Care Cymru have worked with care experienced young people within the RCT area, to support and provide feedback to Ministers regarding the recent plans for the Basic Income Pilot for Care Experienced Young People. Voices from Care Cymru, will be leading on further opportunities for care experienced young people from across Wales to provide feedback/support in the development and reviewing of the Basic Income Pilot Model. |
| **COVID Recovery Response to Near Misses.** | **Steering Group**<br><br>Throughout the last quarter a total of three (3) sessions were cancelled due to concerns raised by both the pandemic and severe weather warnings. In addition to this, whilst activities have been planned over the last quarter to carry out face-to-face sessions, we have received no referrals for the group or outreach activities (with only current members engaging in the activities).<br><br>Having recognised the difficulties in maintaining consistent engagement into the group, VfCC have begun work with the local authority to review the delivery of the group to increase its reach and establish engagement mechanisms, to work with a wider representation of the care community. Therefore, VfCC will continue to deliver face-to-face sessions and outreach activities; whilst working with the steering group to review the group's model of delivery – in which feedback will be sought from care experienced young people. |

**RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**CORPORATE PARENTING BOARD**

**MARCH 2022**

**REPORT OF DIRECTOR CHILDREN'S SERVICES: YOUNG CARERS AND YOUNG ADULT CARERS REPORT**

**Author(s): Mari Ropstad, Service Manager – Carers, Engagement and Direct Payments**

## 1. PURPOSE OF THE REPORT

1.1 The purpose of the report is to provide Corporate Parenting Board members with an update on the work with young carers in RCT during 2021/2022.

## 2. RECOMMENDATIONS

2.1 It is recommended that Members:

Acknowledge the information contained within the report.

## 3. REASONS FOR RECOMMENDATIONS

3.1 This is an information report.

## 4. BACKGROUND

